

Cyngerdd yn Lerpwl ar Nos Sadwrn, 25 Hydref 2014

Manylion am Y Côr o Abertawe - Côr Tŷ Tawe

Tŷ Tawe

Tŷ Tawe yw canolfan Gymraeg Abertawe. Cafodd ei sefydlu yn 1987 er mwyn hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg y ddinas. Mae yno siop Gymraeg, neuadd ddigwyddiadau, bar bach, ystafell gaffi a nifer o ystafelloedd i ddysgu Cymraeg. Yno hefyd mae swyddfeydd Menter Iaith Abertawe. Mae'r côr yn ymarfer yno bob nos Fercher.

Côr Tŷ Tawe

Sefydlwyd Côr Tŷ Tawe yn 1990 yn gôr pedwar llais i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Abertawe a'r cylch. Mae nifer o aelodau'r côr wedi llwyddo i feistrolï'r iaith wrth gymdeithasu a chanu.



Helen Gibbon - arweinydd ac unawdydd



Mae'r côr yn cynnal cyngherddau cyson adeg Gŵyl Ddewi, yr haf a'r Nadolig yn Nhŷ Tawe, ond y mae hefyd yn cynnal cyngherddau ledled de Cymru, ac mae wedi codi rhai miloedd i wahanol achosion trwy wneud hyn. Enillodd y côr y gystadleuaeth i gorau bach yng Ngŵyl Ban-Geltaidd Iwerddon bedair gwaith.

Mae'r côr hefyd wedi teithio'n eang yn Ewrop, gan gynnwys cyngherddau ym Munich a Berlin yn yr Almaen, yn Salzburg a Zell am See yn Awstria, yn Krakow, Zakopane a Gdansk yng Ngwlad Pŵyl, ym Mhrâg yng Ngwlad Tsiec, Barcelona yng Nghatalwnia ac yn Rovigo, yr Eidal.

Yn 2004 canodd y côr yn eglwys

gadeiriol Salzburg. Y flwyddyn ganlynol canodd yn y Kaiser Wilhelm Gedächtnis Kirche yn Berlin ac ar yr un daith cynhaliodd gyngerdd yn Eglwys y Castell, Wittenberg, lle mae beddau Martin Luther a Phillip Melancton, dau o arweinwyr y Diwygiad Protestannaidd. Yn 2007 bu'r côr yn canu yn eglwys gadeiriol Barcelona ac yn eglwys abaty Montserrat. Dilynwyd hyn gan deithiau i Gdansk, Gwlad Pŵyl ac i Rovigo, yr Eidal, yn 2011. Cynhaliodd y côr gyngerdd yng Nghanolfan Gymraeg Llundain yn 2012.

Mae'r côr yn canu amrywiaeth o alawon gwerin, emynau a chaneuon modern a darnau clasurol.

(parhad ar dudalen 2)

YN Y RHIFYN HWN:

Llongyfarchiadau i Bobl Lerpwl - Newyddion o Fanceinion, Eglwysi Bethania, Bethel a Seion –
 Coffad - Miss Nansi Pugh a Mr. William Melvyn Jones – Adolygiadau.

Helen Gibbon : arweinydd ac unawdydd

Daw Helen o Gaerfyrddin. Graddiodd yn Aberystwyth, ac er iddi gael ei themtio i ddilyn gyrfa gerddorol, cafodd yrfa ym myd dysgu. Bu'n bennaeth yr Adran Addysg Grefyddol yn Ysgol Bro Myrddin ac yn Ysgol Gyfun Tregib. Cyn hynny bu'n athrawes Lladin, a dysgodd yn Ysgol Gyfun Ystalyfera. Mae'n soprano adnabyddus ac wedi ennill y wobwr gyntaf bedair gwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Bu'n unawdydd gyda chorau mewn sawl gwlad gan gynnwys Gwlad Pŵyl, yr Iseldiroedd, Gwlad Tsiec, yr Almaen, Awstria a Chatalwnia, ac yn yr Unol Daleithiau. Bu ar daith fel unawdydd gyda Chôr Meibion Ystradgynlais i Wilksbarre, Scranton ac Efrog Newydd.

Mae hi wedi arwain nifer o gorau ieuentid a chafodd lwyddiant yng nghystadlaethau Eisteddfodau'r Urdd yn flynyddol. Cafodd y fraint o sefydlu Côr Cymysg Tŷ Tawe yn 1990 a theithiodd gryn dipyn gyda hwy hefyd fel arweinydd ac unawdydd. Mae'n parhau i astudio techneg llais ac fe fwynha'r fraint o ddiddanu cynulleidfaoedd fel arweinydd yn ogystal â chantores.

John Evans : cyfeilydd

Ganwyd John yn Aberteifi ac addysgwyd ef yng Nghrymlych a Chaerfyrddin cyn graddio mewn cerddoriaeth ym Mhrifysgol Manceinion.

Bu'n aelod o Gerddorfa Cenedlaethol Ieuentid Cymru am bum mlynedd a bu'n athro chwythbrennau yng ngogledd Powys am bymtheng mlynedd cyn symud i Lanelli ac ymuno â Chôr Tŷ Tawe fel cyfeilydd.

Cydnabod Caredigrwydd

Hoffwn ddiolch o galon trwy gyfrwng *Yr Angor* i Roderick a Norma Owen, Lerpwl am eu caredigrwydd tuag ataf yn yr haf pan oedd fy ngŵr yn cael triniaeth yn Ysbyty Broadgreen. Buont yn hynod o garedig ac yr wyf yn gwerthfawrogi popeth a wnaethont inni fel teulu. Gyda diolch.

*Prydwen Jones,
Llanerch, Rowen, Conwy.*

Golygyddol

Pobl y Cymunedau

— gan D. Ben Rees

Y mae y rhifyn hwn yn adlewyrchu pobl *Yr Angor* a chawn ddigon o dystiolaeth ein bod ni yma o hyd. Tystiolaeth o fyd addysg, byd ysgolheictod a llyfrau, byd yr Eisteddfod Genedlaethol, a byd golff sydd yn gêm ardderchog i lawer un o'r Cymry Cymraeg bob ochr i'r afon. A ninnau ar fin dechrau tymor newydd y Cymdeithasau, dymunwn yn dda i Lywyddion y nosweithiau, y diddanwyr a'r darlithwyr a ddaw o Gymru atom, gan ddiolch i Ysgrifenyddion y cymdeithasau am gwplhau eu cyfrifoldebau.

Hoffwn ddiolch i Mrs Margaret Jones, Wallasey am fodloni i fod yn ohebydd rheolaidd dros Gapel Seion, Penbedw fel olynnydd Mrs Marged Jones a gyflawnodd y dasg mor ffyddlon y degawd diwethaf. Nodyn llawen arall ydyw fod Mrs Olwen Jones, o Seion wedi bodloni dod yn aelod o Bwyllgor Gwaith *Yr Angor* o fis Medi ymlaen. Bydd hyn yn affaeliad mawr, a bu cryn newid yn hanes ein Pwyllgor Gwaith. Y Dr. John G. Williams yw'r Cadeirydd; Roderick Owen yn Drysorydd, a Ben Hughes yn Ysgrifennydd. Bydd aelodaeth y Pwyllgor Gwaith yn cynnwys Mr Elwyn a Mrs Eflwyn Evans, Didsbury, Mrs Anne Hunt, Heaton Chapel, Parchg. Eleri Edwards, Stretford, Mrs Mair Jones, Childwall, Mr. Hywel Jones, Barnston, Mrs Anne Jones, Trefebn, Mrs Mair Rees Jones a Mrs Olwen Jones, Penbedw a Cilgwri. Hwy sydd yn gefn i'r papur bro ac yn atebol, yn trafod ac yn gweithredu ar ein rhan.

Cefais bob cefnogaeth ganddynt fel Golygydd a phleser bob amser ydyw ymgynnull yn ein cyfarfyddiadau, a hefyd sylweddoli fod yna haelioni mawr i gynnal y papur bro am ei fod yn corlannu gweithgareddau ein holl gymunedau. Yr ydym yn gwybod beth sy'n digwydd o gymuned i gymuned ac ymfalchiwn yng ngweithgareddau pob cymuned a gofir o fis i fis ar dudalennau *Yr Angor*.

CORNEL Y TRYSORYDD HYDREF 2014

Mr a Mrs Iorwerth Williams	Allerton	£10.00
Dr Pat Williams	Childwall	£40.00
Mr a Mrs Eurfryn Davies	Llandegfan	£30.00
Ms Elan Jones	Mossley Hill	£10.00
Mr William McEvoy	Mossley Hill	£20.00
Mr David Mawdsley	Bodfari	£20.00
Mr a Mrs David John Williams	Gateacre	£10.00
Mr a Mrs Dewi Evans	Y Bala	£10.00
Mrs Gaenor Gregory	Bebington	£10.00
Mr a Mrs Bob Jones	Prenton	£25.00
Mr a Mrs Tom Owen	Abertawe	£31.00
Mrs Helen Morris	Babell	£32.00
Mr Dai Hawkins	Llandrindod	£21.00
Mr Emrys Williams	Ellesmere Port	£31.00
Mrs Devida Broadbent	Roby	£30.00
Mr a Mrs Bryan Jones	Bae Colwyn	£20.00
Mrs Heulwen Bott	Frodsham	£25.00

Cyfanswm £375.00

Roderick Owen (Trysorydd)

LANNAU MERSI A MANCEINION

Newyddion Manceinion

Llongyfarchiadau calonnog i Carys-Ann Smithson ar ennill ei gradd gydag anrhydedd o brifysgol Durham. Hefyd i William ei brawd am lwyddo yn ei lefel 'A'. Bydd William yn dechrau ar ei yrfa yn Leeds yn yr Hydref ac mae Megan ei chwaer eisoes yn astudio yn Leeds a bydd yn siwr o gadw llygad ar ei brawd bach! Pob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.



Carys-Ann Smithson

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr i Eleri a'i theulu yn marwolaeth Nicola McCormick gwraig Richard nai Eleri – mab David a Mary McCormick a mam dyner Madeline. Roedd Eglwys St Matthew's Edgeley dan ei sang ar yr achlysur trist yma. Mae'n meddyliau gyda'r teulu i gyd a boed i Dduw roi nerth iddynt yn eu galar.

Mae Mrs Gwyneth Clement wedi bod yn cael triniaeth yn ysbyty Christie's am rai wythnosau ond mae gartref bellach. Fe welwn ei cholli'n fawr o'r gwasanaeth naill ai yn Altrincham neu yn Oaker Avenue. Mae'n dal yn galonnog a gobeithio'n fawr y cawn ei chwmmi yn y dyfodol agos.

Drwg oedd gennym glywed am anhwylder annisgwyl Mrs Edith Evans, gwraig Mr Cliff Evans. Ar hyn o bryd, mae mewn ysbyty yn ymyl ei chartref, yn Bury. Da nodi ei bod yn gwella'n araf.

Mae'n meddyliau yn mynd ati hi a Cliff a dymunwn adferiad buan iddi.

Bu Sam Brogden, mab Bethan a Mike ac ŵyr Elwyn ac Eflwyn Evans yn ysbyty'r plant ym Manceinion yn ddiweddar lle cafodd driniaeth ar ei droed a hynny yn llwyddiannus. Bydd yn edrych ymlaen yn eiddgar at y tymor pêl droed a mynychu Stadiwm Etihad i gefnogi Manchester City! Pob bendith iddo ac i'r teulu.

Mae llawer o fynd a dod wedi bod yn ystod yr wythnosau diwethaf ac edrychwn ymlaen at rannu'r hanes a gweld rhai o'r lluniau yn ystod y gaeaf!



Ar sail ei radd yn y Gymraeg, cafodd Rhobert Edward Williams, gynt o Wrecsam ond bellach yn byw ym Manceinion, ei dderbyn yn aelod o Orsedd y Beirdd yn Eisteddfod Sir Gâr eleni

Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Llawenydd yw gwybod fod Mrs Dorothy Williams, Blundellsands wedi dychwelyd o Ysbyty Fazarkley ar ôl y driniaeth lawfeddygol. Bu yn ddewr a derbyniodd gysur yn ymweliadau aelodau Bethania. Anfonwn ein cofion at Mrs Mena Edwards, Miss Megan Williams, Miss Kitty Roberts yn eu caethiwd a chofiwn yn gyson amdanynt yn ein gweddiau.

Rydym yn drist iawn o ddeall am farwolaeth Mr. John Davies, a fu yn flaenor gweithgar yng Nghapel Stanley Road ac yn ffrind da i ni i gyd. Symudodd ef a'i ddiweddar briod Gwyneth (Ephraim gynt) i Ruthun i fyw rai blynyddoedd yn ôl, a dod yn rhan annatod o'r gymuned Gymraeg yn y dref honno. Roedd yn annwyl gan bawb, ei wên yn ddengar a'i ffydd yn gref yn wyneb y proedigaethau mawr a ddaeth i'w rhan fel rhieni. Diolchwn am ei adnabod, a'i wasanaeth cywir a didwyll i Gymry Glannau Mersi, o'i flynyddoedd cynnar yng Ngogledd Lerpwl. Darllenai *Yr Angor* gyda blas a chydymdeimlwn â'i ferch a'r teulu yn y golled arbennig hon. Coffa da an y teulu.

Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r *Angor* ddod allan bydd Mrs Marged Jones o Seion, Penbedw, wedi symud i fyw i Ruthun. Bydd colled fawr ar ei hôl ar Y Glannau. Mae wedi gweithio'n galed a distaw ar hyd y blynyddoedd yng ngwaith yr Eglwys mewn llawer dull a modd. Roedd yn llywydd Pwyllgor Cenhadol Glannau Mersi a bu'n hynod o gefnogol i'r Genhadaeth Dramor a Chartref ar Y Glannau, gan ein cynrychioli mewn sawl Sasiwn a phwyllgor. Dymunwn i Mrs Marged Jones bob dedwyddwch a hapusrwydd yn ei chartref newydd, gan ddiolch iddi am ei chyfraniad mawr i Eglwys Iesu Grist ar Lannau Mersi.

Ar nos Lun, 21 Gorffennaf cawsom gyfarfod diddorol o 'Rannu Profiadau' dan ofal Dr. D. Ben Rees. 'Roedd pawb wedi mynd â rhywbeth oedd yn dwyn atgofion yn ôl iddynt. Clywsom am opera yn Verona gan Mrs Beryl Williams, a chael gweld lluniau ar y sgrîn. Clywsom gynnwys dau lythyr, un a dderbyniodd Mr Bill McEvoy o Antarctica a'r llall a dderbyniodd gan Mr. Ted Clement-Evans o Gaza. Gwelsom fasedd i ferwi reis o Thailand gan Mrs Wena Evans a chlywsom ei hanes yn gweithio yno. 'Roedd gan Mrs Glenys Johnson lun o'r Lôn Goed ac 'roedd cerflun o Aneurin Bevan gan Dr. Rees a rhoddodd hanes y gŵr pwysig hwn a'r Gwasanaeth Iechyd. Dilynwyd y cyfarfod gyda phwyllgor o'r Gymdeithas Lenyddol i gwblhau rhaglen y tymor nesaf.

Llongyfarchiadau calonnog i deulu Mrs Nan Hughes Parry, sef teulu Mr. David a

Mrs Nia Wrennall yn Llanddoged. Dathlodd Dafydd, sydd wedi bod yn hynod o ffyddlon i'r eglwys hon, ei ben blwydd yn un a'r hugain oed a chafodd Elin, ei chwaer, dri A yn ei Lefel A a derbyniwyd hi i Gaerdydd i astudio Meddygaeth. Dymunwn yn dda i'r ddau ifanc yn y dyfodol. Aeth Miss Lowri Phillips, Menlove Avenue North, i Awstralia i astudio am flwyddyn fel rhan o'i gradd. Dymunwn y gorau hefyd i Lowri.

Trist iawn oeddem o glywed am farwolaeth ein haelod hynaf, sef Miss Nansi Pugh ar 1af Awst yn y Cartref Preswyl ym Moreton. Cynhaliwyd yr angladd ym Methel ar brynhawn Mercher 13 Awst dan ofal Dr. D. Ben Rees. Cafodd deyrnged ardderchog gan Dr Rees a roddodd hanes ei bywyd yn America ac yn y wlad hon. Bu'n hapus iawn yma ym Methel, a rhoddodd sawl darlith i ni dros y blynyddoedd. Roedd cynrychiolaeth o Gorawl Cymraeg Lerpwl yn yr angladd gan i Miss Nansi Pugh ysgrifennu llyfr gwerthfawr am y Côr, sef *The Liverpool Welsh Choral, The First Hundred Years*. Coffa da am y wraig ddiwylliedig hon.

Bu farw aelod arall o'n heglwys, sef Mr Melfyn Jones. Mab ydoedd i Mr. William a Mrs Kitty Jones a fu'n cadw Tŷ Capel Heathfield Road flynyddoedd yn ôl. Cynhaliwyd ei angladd yntau ym Methel ar 20 Awst dan ofal Dr. D. Ben Rees. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i briod a'i deulu a hefyd â theulu Miss Nansi Pugh, yn enwedig â'i chwaer Morfudd yn America.

Rydym wedi mwynhau addoli ar y cyd gyda'n chwaer eglwys, Bethania, yn ystod mis Awst. Penderfynwyd gwneuthur casgliad ym Methel tuag at Iraq a Gaza.

Gobeithio i holl ddarllenwyr *Yr Angor* fwynhau misoedd yr haf a'r Eisteddfod Genedlaethol, un a'i yn Llanelli neu'n gwyllo'r teledu. Edrychwn ymlaen yn awr at weithgareddau'r Hydref.

Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Brawychwyd ni fel capel i glywed fod Mrs Marged Jones yn gadael Penbedw er mwyn symud i Rhuthun i fod yn nes at ei meibion. Mae Marged wedi bod yn weithgar iawn yn y capel, y Gymdeithas Gymraeg ac yn ei chylch. Mae hi bob amser yn barod i helpu ac i ymweld â'r rhai sydd yn wael neu wedi cael profedigaeth. Yn y gorffennol byddai yn mynd i helpu i Ysbyty Clatterbridge,

Bu Marged yn brysur yn y gegin hefyd



*Achlysur cinio ffarwelio â Marged.
Cynhaliwyd y cinio yn nhŷ bwyta "The Manor" yn Greasby.*

(Llun: Gwyn Jones)

yn gwneud danteithion at Bore Coffi neu pan oedd eisiau trefnu te ac yn disgwyl aelodau eraill o Lerpwl i gyfarfodydd yn y capel. Cofir am ei Bara Brith enwog. Rhoddodd groeso i bawb oedd yn galw yn enwedig i weinidogion ar y Sul. Gwnaeth bopeth yn dawel a di-sylw. Bûm yno unwaith efo plant – ar y ffordd adref dywedodd fy ŵyr, pum mlwydd oed amdani "She's the right one for a grandma". Roedd yn deall plant yn iawn!

Ar ôl yr oedfa un pnaawn Sul, cyflwynwyd tysteb iddi a'r diwrnod wedyn aeth llawer o'r aelodau i'r Manor yn Greasby i ddathlu a chael pryd efo Marged i ffarwelio â hi. Gwn un peth mai Rhuthun fydd yn ennill gan y bydd Marged, er fod ganddi

broblemau iechyd, llawn mor weithgar yno.

Bydd Oedfa Diolchgarwch y Gymdeithas Gymraeg yn Seion ar Sul cyntaf yn Hydref sef y pumed.



TANYSGRIFWCH I'R



**Papur bro mwyaf diddorol y Gymraeg
Mae eich tanystrifiad yn werthfawr i ni;
yn werthfawr dros ben**

LLONGYFARCHIADAU I BOBL IFANC LERPWL



Llongyfarchiadau i Elin Roberts, Allerton (chwith) am gael gradd M.Sc., ym Mhrifysgol Caeredin fel Athro Gwyddoniaeth mewn Systemau Gwybodaeth Daearyddol (S.G.D.) a Synhwyr o Bell sef *Geographic Information Systems (G.I.S.) and Remote Sensing*. Graddiodd Lisa Hartley, Calderstones (dde) hefyd o Brifysgol Aberystwyth gyda gradd B.A. dosbarth cyntaf mewn Hanes a Mathemateg. Llongyfarchiadau hefyd i Tomos ac Olivia See (Gateacre) yn eu harholiadau 'AS' a'r TGAU.

S4C

Clwb
12.30
7 Medi

Cyffro byw, uchafbwyntiau a thraffod. Llond gwlad o chwaraeon mewn un lle.

s4c.co.uk

S4C Clic

S4C

Becws
8.25
11 Medi

Cyflwr goginio newydd gyda Beca Lyne-Pirkis, un o sêr The Great British Bake Off.

s4c.co.uk

S4C Clic

Miss Nansi Mary Pugh (1918-2014), Lerpwl

Ar Awst 1 ehedodd enaid yr annwyl Nansi Pugh at Dduw ei Chreawdwr a hithau ers misoedd wedi derbyn gofal yn Upton Manor yn Cilgwri. Yr oedd yn 96 mlwydd oed, ac wedi derbyn iechyd da hyd ei bod yn ddeg a phedwar ugain.

Merch hynaf gweinidog Presbyteriaidd amryddawn ydoedd, y Parchedig Cynolwyn Pugh (1883-1962), genedigol o Abergynolwyn, ond a symudodd gyda'i rieni i Drehafof yn 1888. Yno y magwyd ef, mynd yn löwr, gan ddatblygu'n gryn gampwr ar ganu'r cornet. Trodd Diwygiad 1904-05 ef yn efengylwr, a chofiwn yn dda am ddarlith Nansi ar y Diwygiad ym Methel yn 2005. Ordeiniwyd ef yn 1917 a dyna'r flwyddyn y priododd gyda Miss Jennet Jenkins o Cwmgwrach yn Nyffryn Nedd. Dechreuodd y ddau yn nhref Pont-y-pŵl a dyna lle ganwyd y ferch hynaf, Nansi, a hynny ar 10 Rhagfyr 1918. Symudodd y tri i Donyrefail ac ym Mehefin 1921 ganwyd yr ail ferch, Enid Pugh Beecham, a bu hi yn genhades yn yr India o 1946 i 1962. Ym mis Medi 1921 symudodd y teulu bach i Benbedw gan fod y tad wedi ei alw i Gapel Wilmer Road (lle cynhelid y gwasanaethau yn Saesneg).

Derbyniodd Nansi ac Enid yn ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Woodchurch Road a daeth hi yn gyfarwydd a nifer o blant Cymraeg y dref. Ni cholodd adnabyddiaeth ohonynt. Ganwyd y drydedd ferch Morfudd, a fu mor ofalus ohoni ar hyd y blynyddoedd, yn 1925. Cydymdeimlwn â hi a'r mab Gareth a'r ferch Sarah yn yr U.D.A., a hefyd gyda teulu y ddiweddar Enid, ei gŵr, Bertie Beecham a'r merched, Joanna a Morwenna yng Nghaerdydd.

Yr oedd Nansi yn 11 oed pan adawodd Penbedw, tref ei phlentyndod, pan dderbyniodd ei thad alwad i Gapel Cymraeg Presbyteriaidd Hebron, Chicago. Symudodd y teulu ym mis Tachwedd 1929. O Gorffennaf 1933 hyd Mawrth 1935, bu Nansi fyw yn Glyn-nedd gyda theulu ei mam – hi a Enid – gan loywi ei Chymraeg a derbyn hyfforddiant preifat. Acen Cwm Nedd oedd ganddi pan yn siarad Cymraeg – yr acen a glywir gan drigolion Aberdulais, Resolfen, Cwmgwrach, Glyn-nedd a Pontneddfechan. Yn Mawrth 1935 derbyniodd ei thad alwad i Gapel Cymraeg y Presbyteriaidd yn Efrog Newydd ac am yr un mlynedd ar hugain nesaf, yno y bu'r teulu yn estyn croeso tywysogaidd i Gymry a ddeuai am dro i Efrog Newydd. Pregethwyr,

cantorion, gwleidyddion, actorion gan fwyaf, neu i astudio yn y Colegau. Croesawyd Jim Griffiths, AS Llanelli; Richard Burton; Clifford Evans; Dr. Meredydd Evans (a ddaeth yn rhan o'r teulu) a'r Prifathro S. I. Enoch.



Arglwydd Faer Lerpwl yn diolch am y llyfr

Gwnaeth Miss Nansi Pugh yn wych yn ei astudiaethau academiaidd, ennill cymwysterau, a chael swyddi da, hyd yn oed ei apwyntio yn athrawes yn Ysgol enwog Briarley yn Efrog Newydd. Dylanwadodd ar gannoedd a channoedd o ddisgyblion a chadwodd lawer un gysylltiad â hi dros y blynyddoedd. Llwyddodd i gael cyfle i wrando ar ddiwinyddion gorau y byd Cristnogol fel Paul Tillich a Reinhold Neibuhr. Wedi'r cyfan Tillich oedd mentor Enid Pugh ar gyfer ei thraethawd MA. Cynolwyn Pugh oedd y llysgenhad gorau a gafodd Cymru erioed yn Efrog Newydd, a dysgodd Nansi y sgiliau yn ei gysgod. Addolai ei rhieni yn wir yn y blynyddoedd olaf hyn, yr oedd ysbryd y ddau yn ei hystafell o fore tan nos, neu yn ymyl lle yr oedd hi yn trigo. Clywai hwy yn siarad a dyheai am gyfeillachu a hwy, ond ni ddigwydd hynny ar y ddaear, dim ond yn y nef fel y dywedwn wrthi yn barhaus. Pan ddaeth ei rheini yn ôl i Gymru yn 1956 symudodd hithau gyda hwy, gan fyw yn Llanbadarn Fawr, ac ail gynneu'r cysylltiad gyda Glannau Mersi. Daeth i fyw a dysgu yn Wallasey a Crosby lle yr oedd ganddi fodryb yn College Road.

Daeth i gyfeillachu gyda Mrs Ruth Oldfield Davies, merch Gweinidog yr Annibynwyr Cymraeg yn Grove Street a Wallasey cyn hynny. Gwraig weddw ydoedd, collodd ei phriod, adeiladydd adnabyddus yn Wallasey. Symudodd wedyn i Wimbledon yn Llundain, a thrwy ei ffrindiau, y Parchg. H. Islwyn Davies a Mrs M. Davies, fe ddaeth y ddwy i fyw mewn tŷ braf yn Alma Road, Aigburth. Trwy fy nghyfeillgarwch mawr ag Islwyn Davies, deuthum yn ymwelydd â hwy, gan weinyddu'r Cymun, gweddïo, trafod llyfrau (yr oedd llyfrgell ddiddorol yn y tŷ) a sôn am gewri a fu ar y ddaear fel pregethwyr dynamig. Gweinyddais ym misoedd olaf Ruth, cymryd yr awenau yn yr arwyl, dod i nabod Nansi yn ei hiraeth a'i unigrwydd. Ruth oedd y cymeriad cryf yn fy nhŷ i, ond deuthum i sylweddoli fod Nansi yn meddu ar lu o ddoniau, cerddorol, llenyddol, diwylliannol. Ar ôl pwyso a phwyso, perswadiais hi i ddod



Ar ei phen-blwydd yn 90 oed yn Woolton

atom i Bethel, y peth gorau a wnaeth er ei lles a'i dyfodol. Aelod gyda'r Cyfeillion ydoedd yn ganol y ddinas, a cholllai orfoledd y canu cynulleidfaol, a'r pregethu Cymreig y bu ei thad yn gymaint o feistr ar y grefft. Y compliment gorau a roddai i mi oedd fy mod yn y pulpud yn ei hatgoffa o'i thad. Felly cysegrodd y blynyddoedd ei henaint, ar ôl gofal cariadus am Ruth, i dri pheth:



Norma Owen, un o'i ffrindiau, ar ymweliad

Yn gyntaf i gadw enw ei thad yn fyw ac ehangu ei ddylanwad i blith Cymry di-Gymraeg a Saeson, Bu farw Cynolwyn Pugh ar 22 Mawrth, 1962, ac enillodd ef y Fedal Rhyddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy yn 1958 ar thema hunangofiant. Cafodd *Ei Ffanfer ei Hun* ei gyhoeddi yn 1959, ac aeth hi ati i gyfieithu y cyfan dan y teitl *His Own Fanfare* a chyhoeddodd ein cwmni, Cyhoeddiadau Modern Cymreig gyfrol hardd, 278 o dudalennau allan yn 1999. Cynorthwyais hi hyd y medrwn er mwyn y gwaith graenus a gyflawnodd. Cafodd y gyfrol dderbyniad campus gan yr adolygwyr.

Soniodd wrthyf ar ôl cyhoeddi *His Own Fanfare* am daith ei thad (ar ôl colli ei briod) yn 1961 i Gynhadledd Cyngor Eglwysi'r Byd yn Delhi yn yr India. Aeth yno, ac ar ôl cyrraedd adref lluniodd Ddyddiadur. Anfonwyd hwn i Gystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli yn 1962. Ni lwyddodd i ail greu camp 1958. Aeth ei ferch ati i gyfieithu y teipysgrif i'r Saesneg a'i olygu ar gyfer ein gwasg, a chyhoeddwyd *Indian Diary* yn 2001, 145 o dudalennau, anferth o dasg arall.

Sylwodd Undeb Gorawl Cymry Lerpwl ar ei medr yn yr iaith Saesneg a gwahoddwyd hi yn hanesydd y Côr. Gwyddai fod y Barnwr John Edwards Jones wedi gwneud cryn dipyn o ymchwilio, ac adeiladodd hi ar ei ymdrech, gan baratoi cyfrol ysblennydd yn pwysleisio cyfraniad y Cymry i fodolaeth, llwyddiant ac ymdrechion y Côr am dros ganrif. Pan dderbyniodd y Côr Ryddid Dinas Lerpwl yn Neuadd y Ddinas, braf oedd gweithred yr Arglwydd Faer, Cynghorydd Gary Miller yn ei chyfarf yn ei chadair olwyn am ei champ. Bu ei chyfrol hi yn help i'r Côr dderbyn Rhyddid y Ddinas.

Yn ail manteisiodd yn helaeth ar ddarpariaeth Cymdeithas Cymry Lerpwl a Chapel Cymraeg Bethel. Trysorodd y cyfarfodydd, y darlithiau, y Cyngherddau, yr holl ddanteithion diwylliannol Cymreig. Mentrodd ddarlithio ei hun yng Nghymraeg hyfryd Cwm Nedd, a

chofiwn fel cymdeithasau llên a chân am ei dealltwriaeth a'i deallusrwydd. Defnyddiodd y compiwter i baratoi y darlithiau ar ei theithiau a'i diddordebau. Yr oedd yn hyddysg yn llenyddiaeth Saesneg ers dyddiau Coleg ond daeth i ymserchu yn nofelau Islwyn Ffowc Elis, yn arbennig *Cysgod y Cryman*, ac mewn cyfieithu emynau Cymraeg i'r Saesneg. Roedd camp ar ei chynnyrch. Yn ei chaethiwed oherwydd damweiniau a salwch cafodd dderbyn o gynhesrwydd arweinwyr ac aelodau'r ddwy Gymdeithas, yn ei chyfnod yng Nghartref y Methodistaidd ac yn y Cartref yn Upton ar Cilgwri.

Yn drydydd daliodd i deithio, yn arbennig i'r Amerig. Bu fyw bywyd i'r ymylon, dreifio'r car i Llandinam ac i Gaerdydd, mentro i lawr y Danube ar long a hedfan yn gyson i'r Unol Daleithiau at Morfudd a'i theulu. Y momentos oedd ganddi yn Upton Manor oedd lluniau y teithiau hyn i Loegr Newydd a Efrog Newydd. Gwraig dda a rhinweddol sydd bellach yn y Goleuni, a gyda'i anwyliaid yn y nef. Braint i mi oedd cael cynnal Gwasanaeth o baratoad ar gyfer Bywyd Tragwyddol ar bnawn Iau, 31 Gorffennaf yn ei ystafell a hithau wedi cael trawiad a cholli lleferydd. Agorodd ei llygaid ddwywaith i amenio a minnau yn llefaru, 'Buost ffyddlon, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd'.

D. Ben Rees

LLONGYFARCHIADAU I DDAU O BOBL LERPWL

Llun o gamera Dr. John G. Williams



Cystadleuaeth Golf 'Y Goleuad' – Brian Thomas a John Lyons yn edrych am bêl y ffotograffydd eto

Bu'r Parchg Derwyn Morris Jones yn cael blas ar ddarllen

COFIANT JIM GRIFFITHS – *Arwr Glew y Werin*

Yn sgil bod yn weinidog Eglwys Gellimanwydd, Rhydaman, am bymtheg mlynedd, cefais y fraint o fod yng nghwmni James Griffiths droeon. Pan ddeuai i etholaeth Llanelli byddai'n lletya gan amla' ar aelwyd ei nith May Harris, ac yn dod gyda hi i'r oedfa bore Sul. Eisteddai Glyn Harris a'i briod o dan y galeri ym mhen blaen y capel, a phan fyddai ei hewyrth, Wncwl Jim gyd hwy, sylwn bob amser fel y byddai'n pwysu 'mlaen yn y sedd ac yn gwrandio nid yn unig a'i glustiau, ond â'i lygaid hefyd. Amheuthun yw gwrandawr felly i bob pregethwr ac athro! Wrth ddychwelyd i Rydaman a'r *Christian Temple* yr oedd yn ei fro enedigol ac ar aelwyd ysbrydol ei blentynod a'i lencyndod, a mawr oedd ei werthfawrogiad bob amser am y gwasaenaeth y byddai'n rhannu ynddo, ag yntau bellach yn heneiddio. Ar Awst y 7fed 1975 gweinyddais yn ei angladd. Yr oedd capel Gellimanwydd yn orlawn y prynhawn hwnnw, a thyrfu fawr tu fas i'r capel ac ar yr hewl fawr, yn talu eu cymwynas olaf iddo.

Bum yn edrych ymlaen at weld y cofiant Cymraeg cyntaf iddo, gan gofio'r mwynhad a gefais yn nhudalennau ei hunangofiant Saesneg diymhongar *Pages from Memory* a gyhoeddwyd ym 1969 ar drothwy ei ymddeoliad o'r Tŷ Cyffredin fel aelod seneddol Llanelli. Ac y sicr, ni chefais fy siomi yng nghyrol swmpus y Parchg D. Ben Rees am y bachgen o'r Betws a ddechreuodd ei yrfa yng ngwaith glo'r pentref, ac a dyfodd i fod yn arweinydd dewr i'r glowyr, a maes o law yn un o benseiri'r Wladwriaeth Les, ac yn Ysgrifennydd Gwladol cyntaf Cymru.


Ymchwilio manwl a gofalus

Fel y gellid disgwyl, bu Ben Rees yn ddiwyd yn ymchwilio hanes James Griffiths. Cawn olwg gwerthfawr ar ei fagwraeth yn ardal y glo carreg, a'r dylanwadau ar y bachgen bywiog, o du ei rieni yn efail y Betws a'r gymuned agos atoch yr oedd yn rhan ohoni, a'r capel oedd yn ganolog ym mywyd ei deulu. Yr oedd yn ffurfiol â'r ysgol yn dair ar ddeg oed, ond o'i ddyddiau cynharaf yr oedd yn awchus i ddarllen a dysgu, ac yn berchen ar gof rhyfeddol. Byddai'n cofio

air am air bron y bregeth ar fore Sul, ac yn adrodd peth ohoni i'w fam a fyddai wedi aros gartref i baratoi cinio i'r teulu. Bu'r ddawn hon i gofio manylion o bob math, ynghyd â'i ddiddordeb didwyll mewn pobl a'u hamgylchiadau personol, yn gaffaeliad mawr iddo gydol ei yrfa. Fel y dengys y cofiant diddorol hwn, bu'r ddawn hon o fantais fawr iddo wrth gyflwyno mesurau digon cymhleth yn y Senedd o fainc flaen y Blaid Lafur, ac wrth fugeilio pobl ei etholaeth.

Profiad a gweledigaeth ddyngarol fawr


Collodd ei frawd Gwilym o ganlyniad i danchwa glofaol, a dioddefodd ei frawd llengar Amanwy gydol ei oes o glefyd y llwch. Dengys Ben Rees fel y bu i'w frwydr dros y glowyr, a'i ddygnwch a'i benderfyniad i gael y garreg i'r mur wrth sefydlu'r cynlluniau yswiriant gwladol egino o'i brofiad personol o ddiodeffaint



a thlodi cynifer o'i gyd-wladwyr. Mewn dwy bennod ar hugain gynhwysfawr, llwyddodd yr awdur i gwmpasu bywyd llawn llafur, a chyfraniad gŵr gwylaidd a diwylliedig, gwleidydd craff ac uchelgeisiol hefyd, a Chymro twymgalon. Tanlinellodd ei gryfderau niferus, a hynny heb anwybyddu rhai gwendidau a'i nodweddodd fel gwleidydd ym marn rhai. Pennod onest a theg dybiwn i yw'r olaf "Cloriannu'r Gwleidydd". Cewch farnu drosoch eich hunan wrth ddarllen y cofiant, ac rwy'n eich annog i wneud hynny. Yr oedd Jim Griffiths yn un o wleidyddion pwysicaf ail hanner yr ugeinfed ganrif, ac yn ddyn da y mae'n dda i genhedlaeth newydd gofio ei gyfraniad i Gymru a Phrydain a thu hwnt. Ac rwy'n falch fod yr awdur wedi rhoi cip inni ar ei briod alluog Winifred, a fu'n gefn iddo gydol ei oes, gan rannu ei argyhoeddiadau sosialaidd cristnogol.

Big Ben

Barna Gwilym Prys Davies yn ei Gyflwyniad i'r gyfrol fod "maint ein dyled yn enfawr i'r Parchedig Ben Rees am ei lafur, ei ddygnwch a'i egni creadigol yn darparu'r ffenestr hon ar fywyd James Griffiths". Ac o gofio maint ei gyfraniad erbyn hyn i'n llenyddiaeth hanesyddol a diwinyddol a gwleidyddol yng Nghymru, fel awdur a golygydd, diau mai addas bellach yng ngoleuni'r gyfrol hon sy'n troedio San Steffan, yw cyfeirio ato fel **Big Ben!**



Dr. D. Ben Rees yn arwyddo ei gyfrol yn Eisteddfod Llanelli i Robin Gwyndaf

ADOLYGIAD

'DYDDIAU O LAWEN CHWEDL'

GOL. JOHN GWYNFOR JONES (CMC/MWP 2014)

Dros hanner canrif yn ôl, aeth gweinidog ifanc yng Nghwm Cynon ati i sefydlu gwasg newydd sbon. Menter go fawr oedd honno. Enw'r gweinidog oedd y Parchg D Ben Rees ac enw'r wasg newydd oedd 'Cyhoeddiadau Modern Cymreig'. Bellach mae honno wedi cyhoeddi tua dau gant o gyfrolau a llyfrynau, gan wneud cyfraniad arbennig o werthfawr i fywyd diwylliannol Cymru a dinas Lerpwl.

Manteisiâf yn frwdfrydig ar y cyfle hwn i gymeradwyo'r llyfr diweddaraf, sef *Dyddiau o Lawen Chwedl*, cyfrol ddatlhu hanner canmlwyddiant y wasg. Ceir yma gasgliad o wyth o ysgrifau sy'n delio ag ystod eang o bynciau diddorol. Ben ei hun, gyda'i ddiwydrwydd rhyfeddol, sy'n gyfrifol am hanner y cynnwys, a golygydd y gyfrol yw'r Dr John Gwynfor Jones, yr ysgolhaig disglair o Gaerdydd. Yn ei ragair mae Dr Jones yn talu teyrnged i Ben Rees a'i 'frwdfrydedd dihybsydd a'i egni a'i ymroddiad'. Gwelir prawf o'r holl waith caled yn y

bedwaredd ysgrif, sef rhestr gyflawn o lyfryddiaeth y wasg rhwng 1963 a 2013. Y mae Ben yn adrodd stori'r wasg, a'i dechreuadau anturus yn Abercynon, yn y dylededd bennod.

Mae cyfrolau'r wasg yn cynnwys gweithiau swmpus ar hanes Cymry Lerpwl, bywgraffiadau o gymeriadau nodedig (Mahatma Gandhi, John Calfin, Henry Richard, Samuel Roberts, Gwilym Hiraethog, Owen Thomas ac eraill), a phob math o gynnyrch deniadol arall (fel trosiad o *Le Petit Prince* gan Antoine de Saint-Exupéry). Amrywiaeth cyfoethog iawn, a dweud y gwir.

Ceir yma berl o ysgrif agoriadol gan John Gwynfor Jones ar 'argyfwng rhyddiaith brintiedig Gymraeg c.1567-1630' sy'n mynnu na ddylid diystyrru'r ail ganrif ar bymtheg o safbwynt cyhoeddiadau Cymraeg. Cyfnod o osod seiliau ar gyfer mawrion y ganrif ddilynol oedd hwn, yn ôl yr awdur, ac annoeth fyddai dibrisio cyfraniadau Morgan Llwyd a'i gyfoedion.

Brodor o bentref Llanddewibrefi yw Ben Rees (fel y gŵyr pawb!) ac felly nid peth annisgwyl yw darllen ei bennod ar 'agweddau ar gyhoeddi yn Gymraeg yn Llanddewibrefi', pennod sy'n ein tywys o gyfnodau Dewi Sant a Rhigyfarch at yr oes bresennol, a chyhoeddiad *Llyfr Mawr Llanddewi Brefi* yn 2011. Ceir ysgrif arbennig o bwysig ganddo ar 'gylchronau a newyddiaduron Cymraeg a gweisg Lerpwl 1795-2013'. Cyhoeddiadau Modern Cymreig yw'r unig wasg bellach sy'n cynrychioli'r traddodiad godidog hwnnw.

Mae'n sicr yn werth darllen ysgrif oleuedig E. Wyn James ar gyfrolau Pedr Fardd, a thrysor arall yw 'brasolwg' Brynley F. Roberts ar 'argraffu a chyhoeddi yng nghymoedd Taf a Chynon', ysgrif sy'n cyfleu holl fwrlwm y byd argraffu ym Merthyr ac Aberdâr, gan gynnwys ymddangosiad rhyfeddol 'tua 114' o newyddiauron yng Nghymru rhwng 1804 ac 1855.

Cyfrol yw hon sy'n darparu gwledd o wybodaeth ac o ddadansoddi craff. Ceir ynddi brawf ddiameuol o gyfraniad Cyhoeddiadau Modern Cymreig dros gyfnod maith o hanner canrif, a phrawf ychwanegol o waith orchestol y Parchg Ddr D Ben Rees. Porwch a mwynhewch.

HUW EDWARDS
LLUNDAIN

LLONGYFARCHIADAU I BOBL LENGAR LERPWL

Lluniau o gamera Dr. John G. Williams



Dr. D. Ben Rees yn darlithio yn yr eisteddfod



Eirlys a Gwyndaf Richards (Llwydiarth) a Dafydd Rees (Llundain) ar faes y Brifwyl yn Llanelli

Eisteddfod Llanelli – Longyfarchiadau i'r Parch. Athro. D. Ben Rees am ei ddarlith yn y Babell Lân ar Jim Griffiths a'i frawd David Rees a adnabyddir yn well o'i enw barddol sef Amanwy. Cawsom hanes eu magwraeth yn y Betws a Rhydaman a gyrfa wleidyddol Jim Griffiths – gyrfa a gafodd effaith fawr ar wleidyddiaeth yng Nghymru. Mae'r hanes yma wedi ei gofnodi yn llyfr diweddaraf Ben Rees sef 'Cofiant Jim Griffiths – Arwr Glew y Werin'.

ADUNIAD I BOBL BYD Y GOLFF

Llun o gamera Dr. John G. Williams



Golff - Cystadleuaeth 'Y Goleuad'. Unwaith eto bu golffwyr elitaidd y genedl yn gwneud eu ffordd i Glwb Golff Mile End, Croesoswallt ar gyfer cystadleuaeth Cwpan 'Y Goleuad'. Aeth confoi o fygis a throliau modur o amgylch y cwrs lle clywid ochneidiau o loes, anghredinedd a diolchgarwch. Dau o hoelion wyth y gystadleuaeth enillodd y wobwr gyntaf a'r ail i'r Gweinidogion sef T. Leonard Williams a William Hugh Pritchard. Llongyfarchiadau i Brian Thomas, Lerpwl am ennill yr ail wobwr i'r 'isel rai'!

MYFYRDOD Y MIS

Pan ar ymweliad i'r Porth, Rhondda ychydig yn ôl fe glywais fod fy hen ffrind Gerwyn Rees, wedi marw. Roedd yn yr un dosbarth a finnau yn Ysgol Ramadeg y Porth. Roedd ei fam dros ei deugain oed pan gafodd ei eni ac roedd ei rieni wedi dotio cymaint fe gafodd pob mantais a phob peth ofynnai fe'i cafodd. Ychydig iawn o ffrindiau oedd ganddo oherwydd ei fod eisiau bod yn geffyl blaen bob tro. Os chwarae pêl-droed roedd rhaid iddo fod yn gaptan, cymeryd pob cic gornel, penalti a phan oedd wedi blino yn stopio'r gêm a chan ei fod yn berchen y bêl fe ai adref. Yn ystod ei fywyd roedd yr ymddygiad yma yn dyngedfennol iddo. Fe aeth i'r cwmni anghywir ac fe aeth o ddrwg i waeth, yn groes i'r gyfraith ac i'r llys barn. Methai'u dad a'i fam ddeall pam ac yntau yn cael pob dim at ei eisiau ond diwedd y gân oedd iddo fynd i'r carchar am gyfnod. Beth, meddech chi, aeth o'i le?

Ein darlithydd yn y coleg oedd Harold Edwards, brodor o Bwllheli a phob pnawn Gwener yn ei ddarlith fe wahoddoddi ni fel myfyrwyr i ofyn ac i drafod pwnc neu gwestiwn. Un cwestiwn ofynnwyd oedd "Beth oedd yr angen mwyaf sylfaenol mewn bywyd?" Dyma Harold yn dweud fod yna dri seicolegwr oedd wedi trafod y cwestiwn ac wedi dod i'r casgliad yma ... Freud, yr angen mwyaf iddo fe oedd Cariad ... Adler, yr angen mwyaf iddo fe oedd Arwyddocâd ... Jung, yr angen mwyaf iddo fe oedd Diogelwch. Am bron i ddeugain mlynedd bum yn "ceisio" dysgu plant araf a phlant gydag anghenion arbennig. Dyma adeg mwyaf bendithiol imi fel athro. Fy "Rough Diamonds" oeddynt ac fe geisiais roi ryw dipyn bach o "bolish" ar ei

bywydau. Yn sicr iawn, maent wedi rhoi "polish" ar fy mywyd ac mi fyddaf yn dragwyddol ddiolchgar iddynt. Wrth pwysu a mesur beth ddywedodd Harold wrthym fe adawaf yr ateb i fy ewyrth Bob.

Ers talwm iawn roedd Bob yn bennaeth "wyrwys" (yr adeg honno) ac yno roedd amrywiaeth o fobl ddi-gartref, rhai anabl a phlant amddifad. Weithiau buasai cwpl ddi-blant yn dod i fabwysiadu plentyn. Cyn gweld y plant rhoddai Bob gyfweiliad iddynt i weld os oeddynt yn dderbyniol fel rhiant. Roedd un pâr yn dderbyniol ac eisiau mabwysiadu bachgen bach - John Griffiths. Dywedodd y cwpl wrth John sut dŷ oedd ganddynt ac ardal, buasai ganddo ystafell ei hun, ac buasai'n cael cyfleusterau i fynd o gwmpas i manau eraill - a digon o ryddid (Yn y man yma o'r hanes gan Bob fe ddechreuais feddwl am Gerwyn Rees) ac i syndod y cwpl fe ddywedodd John - NA. Ar ôl i'r cwpl fynd fe ofynnodd Bob "Beth oedd eisiau?" Dyma John bach yn ateb, "Yncl Bob DISGWYL I RHYWUN DDWEUD EI BOD AM FY NGHARU". Diar mi, o enau plant bychain ynte?

Ie, Freud oedd yn iawn. Efallai bod y pethau angenrheidiol gennym ond mae un peth yn sicr rhaid ychwanegu sef "rhywun i'w garu a rhywun i'n caru ni". Ble gawn ni hyn? Clywch ar Elfed yr emynydd:

"Dyma gariad sydd yn lletach
Na mesurau meddwl dyn
Y mae calon yr Anfeidrol
Yn rhyfeddol dirion un."

ELWYN

William Melvyn Jones (1948-2014)

Mossley Hill, Lerpwl

Llanc ifanc oedd Melvyn pan welais i ef gyntaf yn hydref 1968 wrth ymweld a'i rieni, W. J. a Kitty Jones yn 22 Centreville Road lle yr oedd cymuned o Gymry yn byw. Daeth ef i Lerpwl gyda'i frawd David a'i rieni o Clynnog Fawr yn Gymry bron uniaith i ofalu yn 1959 ar ôl Capel Heathfield Road fel y'i gelwid yr adeg honno. Treuliodd blynyddoedd pwysig ei blentynod yn y fro hanesyddol honno, ond buan iawn yr addasodd i fywyd dinas fawr a chylch enwog Penny Lane.

Yn Lerpwl bu yn ddisgybl yn Ysgol Morrison's (lle saif Tesco erbyn hyn) ac yn mynychu y Gorlan a'r Ysgol Sul a'r Capel. Yr oedd yr eglwys yn meddu ar dros 450 o aelodau, a digon o waith i geidwaid y Tŷ Capel. Gwnaed David yn aelod ar Medi 23, 1962 ond Melvyn yn unig a wnaed yn gyflawn aelod a hynny ar 5 Ionawr 1964. Cyfrifid ef yn unawdydd addawol a byddai yn cymeryd rhan ar adegau arbennig ac yn y nosweithiau adloniant. Gadawodd yr Ysgol yn bymtheg oed a derbyn prentisiaeth cwmni J. W. Jones, gan fod un o benaethiaid y ffyrm Howell Vaughan Jones yn flaenor ers 1960 yn y capel. O gwmi adeiladu mentrodd i fyfwr a môr i'r Llynges gyda chwmi a ofalai am y Blue Funnel, a bu yn un o griw *The Empress of England and Canada*.

Daeth Melvyn yn ŵr ifanc poblogaidd yn ardal Penny Lane a Smithdown Road, a dod yn rhan annatod o grŵp o ffrindiau, ac yn eu plith yr oedd Vera.

Datblygodd y berthynas ac ar un o'i ymweliadau adref yn Lerpwl dyweddiwyd ef â Vera. Priodwyd hwy yn Ionawr 1971 a phenderfynodd adael y môr i ddiddosrwydd y cartref newydd yn Southdale Road, Wavertree. Llawenydd mawr i'r ddau oedd geni ei mab Mark ac yna ym Mai 1974 ganwyd ei merch, Nicola. Yr oedd ffiol y ddau yn llawn, ac ar ôl dwy flynedd ar bymtheg yn Wavertree, symudodd y teulu i Avonmore Avenue yn Mossley Hill.

Cafodd waith gyda Minsters yn Picton Road cyn ei apwyntio i swydd o dan

Gorfforaeth dinas Lerpwl lle y bu yn boblogaidd gyda'i gyd-weithwyr hyd ei ymddeoliad.

Dyn teulu ydoedd, ac ar ôl i'w blant briodi, dotiodd at yr wyrion a'r wyresau, Chlœe, Ellie, Stephen, Jake a Harley. Llawenydd pur iddo oedd cael cwmni ei anwyliaid. Bob Sadwrn fe deuent ynghyd i gefnogi tîm pêl-droed Everton. Yr oedd Melvyn yn gefnogwr brwdfrydig iawn ohonynt. Edrychai



ymlaen am ddathliadau o fewn y teulu. Ei brif ddileit oedd gwyllo ffilmiau yng nghwmni ei wyrion a'i wyresau a chael teithio i Lerpwl ar fore Sadwrn. Meddyliai ei ddisgynyddion yn fawr ohono, gan gyfrif ei 'grandy' fel gŵr doeth, cefnogol a gofalus ohonynt. Cymerai ddiddordeb byw yn ei bywydau, a byddai yn galw ar Chlœe am baned o goffi a sgwrs.

Yr oedd yn ŵr adnabyddus iawn yn Ne Lerpwl, gelwid ef gan rai yn Billy a'r lleill yn Mel. Gwelid ef yn gyson ar Allerton Road a byddai ei gyfarchiad a'i wên yn afieithus. Meddai ar lu o ffrindiau.

Bu yn hynod o ffodus o'i briod Vera a'r plant, a chadwodd ei afiechyd olaf

yn fater preifat iddo'i hun. Gan nad oedd lle gwag yn Marie Curie Woolton ar ei gyfer, trefnwyd iddo gael dod adref o Ysbyty Frenhinol Lerpwl. Yr oedd ei gwpan yn llawn, ac fe hunodd gyda'i anwyliaid o'i amgylch ar fore Mawrth, 12 Awst yn 66 mlwydd oed. Rhoddai W. Melvyn Jones gysur i bawb a'i adnabu, a deuai gwên i wyneb y rhai a'i cofia gan ei fod mor annwyl a hoffus. Gŵr tyner ei galon ac yn ŵr bonheddig yng ngwir ystyr y gair.

Bu'r arwyl yng Nghapel Cymraeg Bethel, Heathfield Road ar bnawn Mercher, 20 Awst o dan fy ngofal.

D. Ben Rees

PRIS HYSBYSEBU

Hanner tudalen – £30.00
Chwarter tudalen – £15.00
Llai na chwarter o £5 i £10

Pris llai am flwyddyn gyfan



PAPUR BRO SAFONOL YN DIBYNNU AR
GYFRANIADAU GWIRFODDOL O FIS I FIS
e-bost – benatgarthdrive@talktalk.net

Safle we – Cymrylerpwl.co.uk

Golygydd ers 1979:

Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive,
Lerpwl/Liverpool L18 6HW

Cadeirydd:

Dr. John G. Williams,
Calderstones, Lerpwl

Trysorydd:

Roderick Owen,
Maes-hir, 21 Drennan Road, Allerton
Lerpwl/Liverpool L19 4UA

Ysgrifennydd:

Ben Hughes, 12 Kenilworth Road,
Childwall, Lerpwl

Pris Yr Angor am flwyddyn trwy'r post
£11.00

GAIR I'R DARLLENWYR

Anfonwch eich tâl am Angor 2014-15 o £11.00

(Mehafin 2014 - Mai 2015)

i'r Trysorydd mor fuan ag y medrwyd


**Gair Byr i'r Darllenwyr,
Cyfranwyr, Dosbarthwyr a
Theulu'r Angor**

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2014. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor*.
- **Pris Yr Angor** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin 2014 ymlaen. Anfoner eich siec i *Bwyllgor Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
 - i) **Rhifyn Tachwedd 2014** – erbyn bore Mercher, 1 Hydref neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive.fsnet.co.uk
 - ii) **Rhifyn Rhagfyr 2014/Ionawr 2015** – erbyn bore Sul, 2 Tachwedd – y lluniau, adroddiadau, llythyron etc.
 - iii) **Rhifyn Chwefror 2015** – erbyn bore Gwener, 2 Ionawr i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW.
- **Cofier y wefan** – Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

*Cyrol Hardd ar gyfer Eisteddfod Llanelli
Clamp o gyfrol ar y ffordd.*

**Cofiant Jim Griffiths
Arwr Glew y Werin**

gan **D. Ben Rees**



Cyhoeddwyd gan y Lolfa,
Talybont, Ceredigion.
Gweler gwefan
www.ylolfa.com

Rhif y llyfr Clawr Meddal
978-1847719010
Pris: £14.95
Clawr Caled 978 9 84771.
Pris: £24.95
Tudalennau - 350



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.
Cysodwyd ac argraffwyd gan
Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

PEARSON COLLINSON
TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

Prif Swyddfa

87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

Swyddfa arall

255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair
personol gyda Mr. Alan Hughes ffoniwch 0151 722 1514

